

## *Gwerth faint o ffioedd myfyriwr mae fy mhrifysgol yn ei gael?*

Cawsom £79,577,000 mewn ffioedd dysgu yn 2024/25, sef 50% o incwm y brifysgol.




Daw gweddill ein hincwm o grantiau gan gyrff ariannu at feysydd gwariant penodol, ffynonellau ariannu i dalu costau ymchwil, derbyniadau neuaddau ac arlwyo yn ogystal ag incwm o feysydd megis cyrsiau di-gredyd, Pontio, Academi, meithrinfa Tir Na Nog, y Ganolfan Rheolaeth, Parc Gwyddoniaeth Menai, Canolfan Brailsford a ffynonellau eraill.


## *Ar beth mae'n cael ei wario?*



Mae'r siart hwn yn dangos ein holl wariant, gan gynnwys costau nad ydynt yn cael eu hariannu gan ffioedd dysgu megis ymchwil, gwasanaethau a ddarperir e.e. gwaith ymgynghori a neuaddau. Er mwyn dangos ar beth mae ffioedd dysgu yn cael eu gwario rydym wedi darparu dadansoddiad pellach isod.

## *Ar beth mae fy ffioedd yn cael eu gwario?*

Rydym yn gwario'r incwm o'ch ffioedd dysgu i dalu am eich addysg a chefnogi dyheadau a rhagolygon ein holl fyfyrwyr at y dyfodol. Er mwyn gwneud hyn, caiff mwyafrif y ffioedd eu gwario ar addysgu a chymorth academaidd yn ogystal â gwariant ar TG, y llyfrgell ac adeiladau i hwyluso eich astudiaethau.




**Addysgu ac asesu**
*Amser addysgu ac amser cyswllt staff, amserlennu, darparu adnoddau ar-lein, trefnu arholiadau, amser tiwtor personol*

**Staff cefnogi mewn ysgolion**
*Staff gweinyddol a thechnegol sy'n gweithio yn ysgolion y brifysgol i gefnogi'r ddarpariaeth addysg*

**Costau ysgolion nad ydynt yn ymwneud â staff**
*Offer a nwyddau traul i gefnogi addysgu, hyfforddi staff academaidd a chostau teithio a recriwtio myfyrwyr*

**Gwasanaethau Cefnogi Myfyrwyr (costau staff)**
*Costau cefnogi myfyrwyr a chostau staff gweinyddol*

**Gwasanaethau Cefnogi Myfyrwyr (costau nad ydynt yn ymwneud â staff)**
*Costau cefnogi myfyrwyr a chostau staff gweinyddol*

**Darpariaeth staff o Wasanaethau TG a Llyfrgell**
*Costau staff TG a Gwasanaethau Llyfrgell*

**Costau Darparu Offer a Gwasanaethau Llyfrgell a TG nad ydynt yn ymwneud â staff**
*Costau offer TG cyfrifiaduron a rennir, cysylltiad di-wifr costau rhwydwaith, llyfrau a chyfnodolion nad ydynt yn ymwneud â staff*

**Costau cynnal a chadw adeiladau**
*Costau cynnal a chadw ystad y brifysgol gan gynnwys costau goleuo, gwresogi a chynnal a chadw*

**Gwasanaethau Proffesiynol**
*Costau i gefnogi'r brifysgol i weithredu'r swyddogaethau uchod.*

**Gwariant penodol ar Wasanaethau Cefnogi Myfyrwyr**

O ran costau Cefnogi Myfyrwyr, rydym yn darparu'r gwasanaethau canlynol i wella cyfleoedd myfyrwyr i lwyddo. Ariennir hyn gan ffioedd myfyrwyr sy'n ychwanegu at gyllid grant o tua £1.4m.

| | | ***£'000*** |
|---|---|---|
| ***Lles Myfyrwyr*** | *Cefnogi a hyrwyddo lles myfyrwyr* | £1,611,000 |
| ***Sgiliau / Cyflogadwyedd*** | *Gwella sgiliau astudio myfyrwyr i'w helpu i ddod o hyd i waith ar ôl graddio* | £742,000 |
| ***Gwasanaeth Anabledd*** | *Cynorthwyo myfyrwyr gyda'r cymhorthion sydd eu hangen i gefnogi eu hastudiaethau* | £902,000 |
| ***Ehangu Mynediad*** | *Gweithio gyda darpar fyfyrwyr i godi eu hymwybyddiaeth a'u dyheadau yng nghyd-destun addysg uwch* | £925,000 |
| | | **£4,170,000** |

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am yr hyn a wnaeth y brifysgol yn y flwyddyn academaidd 2024/25, gallwch ddod o hyd i'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol YMA.